DAVIES, THOMAS (1823 - 1898), Llanelli;

Enw: Thomas Davies
Dyddiad geni: 1823
Dyddiad marw: 1898
Rhyw: Gwryw
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Morris Brynllwyn Owen

Ganwyd yng Nglanyrafon, Pencarreg, 17 Rhagfyr 1823. Yn 1839 symudodd ei rieni i Ddowlais ac ymunodd yntau yn 1840 â Bethania, lle y dechreuodd bregethu yn 1846. Wedi ysbaid yn ysgol Ffrwd-y-fàl derbyniwyd ef i Goleg Coffa Aberhonddu yn 1848. Ym Mehefin 1852 urddwyd ef ym Methel, Llansamlet, ond symudodd i Siloa, Llanelli, yn Ionawr 1854, ac yno y treuliodd weddill ei oes. Bu'n olygydd *Y Diwygiwr* o 1865 hyd 1879. Darlithiodd ac ysgrifennodd lawer ar bynciau gwyddonol, a chyhoeddodd gyfrol o bregethau. Bu farw 29 Chwefror 1898.

Awdur

Y Parchedig Morris Brynllwyn Owen, (1875 - 1949)

Ffynonellau

H. Blackwell, NLW MSS 9255A: A Dictionary of Welsh Biography (144)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

Notable Welshmen (1700–1900) (1908), 459-60

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, ii, 64, 276; iii, 493

Y Geninen, 1902, 33-7

Y Diwygiwr, Mai 1898, 133-42

Y Tyst, 6 Ebrill 1898, 8-9

The Congregational Year Book, 1899, 169-70

T. Morgan, *Enwogion Cymreig 1700-1900* (1907)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 103038428

Wikidata: Q20734431

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu